Newyddion Mis Mai 2011

Dydd John Penri, Past Dannedd a Mynd am Dro ar y Dwr! - 29 Mai 2011

Fel mewn llawer eglwys Annibynnol arall ledled Cymru, nodwyd bod heddiw yn **Ddydd John Penri**. 418 o flynyddoedd yn ôl crogwyd John Penri yn Llundain. Un o Biwritaniaid yr 16eg Ganrif oedd John Penri (1563 - 1593); brodor o Gefnbrith, Llangamarch, Sir Frycheiniog (llun llaw dde). Ystyrir ef yn Annibynnwr cyntaf Cymru, ac ef oedd merthyr cyntaf Anghydffurfiaeth Gymreig. Derbyniodd ei addysg yn Peterhouse, Caergrawnt, a threuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd yn Lloegr a'r Alban. `Roedd yn feirniadol iawn o'r Eglwys Wladol oherwydd ei diffyg gofal bugeiliol. Ysgrifennodd nifer o lyfrau yn Saesneg yn beirniadu'r Eglwys yng Nghymru ac yn gofyn am fwy o bregethu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bu yn cynnal gwasg argraffu yn Lloegr am gyfnod, gwasg a argraffodd nifer o bamffledi yn beirniadu'r esgobion. Fe'i camgyhuddwyd o fod yn awdur y *Marprelate Tracts* ac o fod yn annheyrngar i Frenhines Elisabeth 1. Cafodd ei grogi, yn 29 mlwydd oed, yn St Thomas a Watering ar lan Afon Tafwys, ar **29 Mai 1593**, gan adael ar ei ôl Eleanor, ei wraig, a'i bedair merch - Deliverance, Comfort, Safety a Sure-Hope. Anrhydeddir enw John Penri o hyd ymhlith Annibynwyr Cymru; enwyd pencadlys Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar ei ôl, a'i ddyddiadur dychmygol, sy'n cynnwys cofnod o'i ddyddiau olaf, oedd testun un o lyfrau ein cyd-aelod, y Parchedig Huw Ethall: ***Dyddiadur John Penry*** (Gwasg John Penry 1970).

Y Parchedig Allan Pickard, Ton-teg, Pontypridd, oedd ein Pregethwr Gwadd heddiw. Gofynnodd i'r plant rannu â'r gynulleidfa rhai o'r pethau NAD oeddent yn eu hoffi! Cyfaddefodd ein Cennad mai un o'r pethau nad oedd ef yn ei hoffi oedd ymweld â'r deintydd! Nid oedd yn syndod, felly, pan dynnodd allan diwb o bast dannedd o'i boced, ac wrth i bawb gytuno gymaint haws oedd cael y past allan o'r tiwb na cheisio ei gael nôl mewn fe'n hatgoffwyd mor hawdd yw gwneud cymaint o bethau na allwn eu dadwneud: dweud celwydd, bod yn angharedig a châs, hyd yn oed stopio dod i'r Ysgol Sul ac oedfa - hawdd iawn eu gwneud ond heb fod mor hawdd i'w dadwneud! Testun diolch sydd gennym felly am bawb a phopeth sydd yn ein helpu i beidio gwneud y pethau hyn. Cafodd pawb gyfle, yn blant ac oedolion, i ddiolch am Iesu Grist, y cymorth mwyaf i'n dysgu beth ddylem ei wneud a beth ddylem geisio ei osgoi.

Tra bo'r plant yn parhau i ystyried hanes Esther yn yr **Ysgol Sul**, ***Cenhadaeth y Deuddeg a Thrigain*** (Luc 10: 1-12) oedd man cychwyn pregeth **Oedfa'r Bore**. *"What do you do*?", gofynnodd ein Cennad i ni. Dylai'r ateb fod yn hawdd i bob yr un ohonom: *"Un o ddilynwyr Iesu"*. Ond pa mor hawdd yw dweud hynny ... ac, efallai yn fwy pwysig, o'i ddweud, beth a olyga? Anodd teimlo cyffro'r cyfnod cynnar - y cyfnod a ddisgrifir gan Luc wrth i Iesu benodi *"(d)deuddeg a thrigain arall, a'u hanfon allan o'i flaen ... Ewch; dyma fi'n eich anfon allan ... Y mae teyrnas Dduw wedi dod yn agos atoch."* (Luc 10: 1-9) - yn 2011. 'Roedd hwn yn gyfnod a phawb ar bigau'r drain yn dyfalu beth fyddai Iesu yn ei wneud nesaf; 'roedd cyffro yn ferw yng ngwaed y bobl. Gwelir y cyffro ym myd chwaraeon (llun), yng nghynulleidfaoedd cyngerdd a gwyl ond a deimlwn ni'r un cyffro mewn oedfa (llun) ac yng ngwaith yr Eglwys yn 2011? Er mai neges o fywyd newydd sydd gan Iesu 'rydym wedi colli'r cynnwrf a'r cyffro! Yn ôl Simon Barrow, un o gyd-gyfarwyddwyr *Ekklesia*, mae'r mudiad Cristnogol wedi troi yn sefydliad, a thraddodiad a defod bellach yn bwysicach na ffydd a gweithredoedd. Bu i ni golli

golwg ar ffydd yn gweithredu mewn cariad; bu i ni golli'r cynnwrf! Fe'n hanogwyd i gofio pwysigrwydd gweithredu mewn ffydd. Pwy all ddweud beth ddaw yn sgil unrhyw weithredu? Gall mawr bethau ddigwydd o ganlyniad i'r ymdrech a ymddengys y mwyaf di-nôd. "*We accomplish in our lifetime only a fraction of the magnificent enterprise that is God's work ... We may never see the end results, but that is the difference between the master builder and the worker ... We are prophets of a future not our own.*" (allan o *Prophets of a Future not our Own*, gweddi gan yr Esgob Ken Untener, Saginaw (1979) - wedi ei selio ar eiriau a briodolir i'r Archesgob Oscar Romero (1917-1980)).

Ein hannog i fynd am dro a wnaeth y Parchedig Allan Pickard yn yr **Oedfa Hwyrol**. Yn y Beibl, ceir nifer o gyfeiriadau at fynd am dro: Duw yn mynd am dro yn Genesis: *"A chlywsant swn yr Arglwydd Dduw yn rhodio yn yr ardd gyda hwyr y dydd "* (Genesis 3:8a); yna Abraham a'i fab Isaac (Genesis 22) - taith yn llawn tyndra oedd hon ag Abraham yn ymwybodol o bwrpas y daith (llun: *Abraham and Isaac Before the Sacrifice gan Jan Victors (1619-1676)*); bu Moses am 40 mlynedd ar daith gyda'r Israeliaid (Exodus) ac aeth Josua "am dro" o amgylch muriau Jericho (Josua 6). Profiad arbennig i'r ddau deithiwr fu'r daith honno o Jerwsalem i Emaus (Luc 24: 13-35) a hefyd i Paul pan aeth am dro i Ddamascus (Actau 9). Gwyr neb ohonom beth ddigwydd wrth gychwyn ar daith. Gall arwain at brofiad ysgytwol. Beth oedd ym meddyliau'r disgyblion cyntaf pan roddodd Iesu'r gwahoddiad iddynt ddod ar daith a'i ddilyn Ef? (Mathew 4: 18-22). Hanfod ein cenhadaeth Gristnogol yw bod Duw gyda ni ar y daith ac i fentro ar y daith honno rhaid wrth hyder a ffydd. Gwelir hyn mewn hanes taith arbennig arall - Pedr yn cerdded ar y dwr (Mathew 14: 22-33; llun: Eicon o Eglwys Dewi Sant, Thesalonica, Gwlad Groeg). ***Beth yw nodweddion person sy'n barod i gerdded ar y dwr?*** Yn ôl John Ortberg, yn ei lyfr *"If you want to walk on water, you've got to get out of the boat"* (Zondervan, 2001), rhaid i berson sydd am gerdded ar y dwr fod yn ymwybodol o bresenoldeb Duw mewn llefydd a sefyllfaoedd annisgwyl, gweld gwahaniaeth rhwng ffydd a ffolineb, a bod yn barod i fentro allan o ddiogelwch y cwch er gwaetha'r ofn. Nid oes sicrwydd o lwyddiant a rhaid derbyn y bydd yna anawsterau i'w goresgyn ond, yn hytrach na gadael ofn a'r ansicrwydd i'n dal yn ôl, rhaid derbyn bod ofn yn rhan o unrhyw gynnydd a bod rhaid dysgu delio â methiant fel cyfle i dyfu: *"failure does not shape you, the way you respond shapes you"*. Yn anad dim rhaid dysgu disgwyl am yr Arglwydd - ac o ddisgwyl, bydd y profiad yn ein dwyn yn nes ato. Bu rhaid i Pedr fynd allan o'r cwch i gyfarfod â'r Iesu. I wireddu ein cenhadaeth Gristnogol yn 2011 rhaid i ni beidio aros yng nghlydwch y cwch - boed gapel, traddodiad neu arfer oes. Yn hytrach, **rhaid bod â'r hyder i gerdded allan, a'r ffydd i fentro mynd am dro ar y dwr.**



Yn **Oedfa'r Bore** cawsom groesawu Cyfarwyddwr Adran Datblygu *Eglwys Iesu Grist ym Madagascar* (yn y Falagaseg: *Sampan'Asa Fampandrosoana / Fiangonan'i Jesosy Kristy eto Madagasikara* (*SAF/FJKM*)), Rahajary Tsialoninarivo (llun: Rahajary Tsialoninarivo (mewn crys-T) gyda phentrefwyr lleol yn cydweithio i sicrhau cyflenwad dwr digonol), yng nghwmni Theresa Haine o'r elusen *Money for Madagsgar*. Mae *SAF* yn gweithio mewn pum maes - dwr a glanweithdra, iechyd, yr amgylchedd, diogelu bwyd a chymorth mewn argyfwng - a hynny ar draws yr Ynys Fawr. Ar ei ymweliad cyntaf â Chymru mae Tse

(fel y'i adnabyddir) eisoes wedi profi gwefr o ymweld â Chapel Neuaddlwyd, dechrau'r daith i'r cenhadon cyntaf o Gymru i Fadagascar. Cafwyd hefyd gyfle, wedi'r oedfa, i werthfawrogi a phrynu cardiau a grëwyd o luniau a dynnwyd gan Aled Pickard (mab ein Pregethwr Gwadd) yn dilyn ei ymweliad â De'r Affrig llynedd. Estyn y cardiau fodd i gefnogi gwaith Wola Nani, yr elusen y bu Aled yn gweithio iddi tra yn Ne'r Affrig, ac y buom ninnau yn Minny Street yn ei chefnogi adeg Apêl Undeb yr Annibynwyr yn 2008-9.

Ymysg y Beddau: Taith Gerdded o amgylch Mynwent Cathays – 28 Mai 2011

Agorwyd Mynwent Hanesyddol y Waun Ddyfal (sydd efallai yn fwy cyfarwydd i rai fel Mynwent Cathays) yn 1859 ac mae ei maint yn dystiolaeth i dwf aruthrol Caerdydd yn ail hanner y 19eg Ganrif a wedi hynny. Nid yw ymweld â mynwent yn apelio bob amser ond bu'r daith yn agoriad llygaid i'r rhai ohonom na fu yma o'r blaen. Cyfoethogwyd ein hymweliad gan bresenoldeb Rachel Selby, un o staff gwybodus a brwdfrydig y drysorfa hon o hanes cymdeithasol y brifddinas.

I ddechrau mae'r fynwent yn gofnod rhyfeddol o hanes morwrol, dinesig, cymdeithasegol a chrefyddol y ddinas. Mae ynddi raniadau wedi eu neilltuo ar gyfer ein gwahaniaethau eglwysig / enwadol; rhannau i'r eglwys Anglicanaidd, rhannau i'r eglwysi anghydffurfiol a rhannau i'r eglwys Babyddol. Dangoswyd inni wahanol nodweddion symbolaidd beddau oes Victoria - eiddew yn symbol gwyrddni a bywyd tragwyddol, pren wedi ei hollti neu golofn wedi ei thorri yn arwydd o freuder bywyd, angor yn dangos cysylltiad morwrol ac yn y blaen. Byddai safle yn agos i'r llwybrau a maint y beddrodau yn dangos statws cymdeithasol a chyfoeth teuluoedd amlwg.

Yr oedd y rhannau anghydffurfiol yn ein denu ni fel Cymry ac anghydffurfwyr ac ar ein taith troesom i ymweld â thri bedd a oedd o ddiddordeb ieithyddol, hanesyddol a chrefyddol inni.

Yn gyntaf aethom at fedd **Dan Isaac Davies** (1839-1887). Brodor o Lanymddyfri a benodwyd yn arolygwr ysgolion yn 1868 ac a symudodd i Gaerdydd yn 1883. Yr oedd yn frwd dros ddysgu'r Gymraeg yn ein hysgolion ac yn feirniadol iawn o Gymry Cymraeg y ddinas. Meddai amdanynt: 'Y *maent yn lluosog o ran nifer, ac yn ddylanwadol yn fynych fel personau unigol; ond nid ydynt fel corff o bobl yn meddu dylanwad cyfatebol i'w rhif a'u pwys personol. Nid ydynt wedi eu clymu yn allu nerthol mewn ystyr wladol a chenedlaethol.*' Yn 1885 bu ymhlith yr ysgogwyr i sefydlu '***Cymdeithas i Ddefnyddio'r Iaith Gymraeg***' yn Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr a chanddi'r nod o hyrwyddo'r Gymraeg.

Yn ail aethom at fedd **Edward Thomas**,'***Cochfarf***' (1853-1912). Brodor o'r Betws ger Maesteg oedd Edward Thomas a ddaeth i Gaerdydd yn 1876 ac yn 1880 aeth i weithio i'r *Cardiff Coffee Tavern Company*. Oherwydd i'r cwmni hwnnw benderfynu agor ar y Sul, gadawodd Edward Thomas ef ac agorodd ei dafarn goffi ei hun yn *Custom House Street*; maes o law agorodd ddwy dafarn goffi pellach. Yr oedd ganddo ddiddordeb mawr yn y Gymraeg a'i llenyddiaeth ac ymunodd â Chymdeithas i Ddefnyddio'r Iaith Gymraeg y bu Dan Isaac Davies ynglyn â'i sefydlu yn 1885. Yn yr un flwyddyn yn union sefydlwyd Cymdeithas Cymrodorion Caerdydd yn Nhafarn Goffi Edward

Thomas yn *Custom House Street*. Maes o law daeth Edward Thomas yn gynghorydd tref yng Nghaerdydd ac yn faer yn 1902.



Y trydydd bedd y daethom ato oedd bedd y **Parchedig Rowland Hughes** (1870 -1928), gweinidog ein heglwys o 1921-28, a'i briod, ***Adeline Evans Hughes***. Bu **Eglwys Minny Street** yn llewyrchus iawn yn ystod gweinidogaeth Rowland Hughes: cynyddodd yr aelodaeth o 339 i dros 400, ac yn 1927 atgyweiriwyd y tu mewn i'r capel gan osod sêt fawr newydd ynddo, codi oriel, gosod goleuadau trydan a chael organ bib newydd. Ysywaeth ni bu fyw i fanteisio ar y gwelliannau hyn. Bu farw o'r ffliw ar 14 Mawrth 1928. Cawsom ddarlleniad o ran o deyrnged **Thomas W. Brace**, ysgrifennydd yr eglwys, a dalwyd i Rowland Hughes ar ddiwedd ei chweched blwyddyn yn weinidog yr eglwys: '*Chwe blynedd o bregethiad grymus...chwe blynedd o balmantu ffordd yr Arglwydd, chwe blynedd o fugeiliaeth gariadus, chwe blynedd o gynnydd cyson yn nifer yr Aelodau ...Y n fuan wedi sefydlu Mr Hughes yn ein plith, y teimlwyd fod yma rhyw ddylanwad cyfrin a dyrchafol yn ymlenwi ein hysbrydoedd ...*'Trist meddwl y byddai Rowland Hughes a Thomas Brace (Ysgrifennydd Eglwys Minny Street 1918-1928) ill dau farw ychydig dros flwyddyn yn ddiweddarach - Thomas Brace drannoeth angladd ei weinidog. Ond dyna ichi syndod gawsom ni i gyd - sylwodd dau o'n cyd-gerddwyr fod enw Brace ar y garreg fedd nesaf at fedd Rowland Hughes! Gwnaeth Rachel ein tywysydd ymholiadau yn y fan a'r lle i swyddfa'r fynwent a chawsom mai dyma feddrod Thomas W. Brace, ysgrifennydd Minny Street a'i briod ***Sarah Ann Brace***. O gofio'r cysylltiad agos a fu rhyngddo ef a'i weinidog roedd rhywbeth dwys iawn yn y ffaith eu bod ill dau yn gorffwys yn y beddau nesaf at ei gilydd. Mawr yw ein dyled i Rachel am ein tywys mor ddeheuig a'n haddysgu am hanes amryfal, difyr a thrist ar adegau, ein prifddinas a dangos inni fod y fynwent ha nesyddol hon yn drysorfa i'n hanes.



Munud i Feddwl – 25 Mai 2011

2B?NtB? = ? Am £400? Bargen! ac ydy, mae'r syniad yn un rhyfedd o atyniadol. Ond ai dyma'r cwestiwn pwysicaf? Ai dyma'r cwestiwn y dylem fod yn ei ofyn? Beth am ddarllen **Munud i Feddwl** y Gweinidog ac yna ail ystyried?

Nythod, Lleoedd i Ymweld ac Adeiladu Tai! – 22 Mai 2011

Y Parchedig Beti Wyn James oedd ein Pregethwr Gwadd heddiw. Braf oedd croesawu'n ôl un a fu'n Fugail Fyfyriwr yn Eglwys Minny Street ym Misoedd Gorffennaf a Medi 1993. Erbyn hyn mae'r Parchedig Beti Wyn James yn Weinidog ar Eglwysi Annibynnol y Priordy, Caerfyrddin a Cana, Bancyfelin, ynghyd â bod a gofal Eglwys Bresbyteraidd Bancyfelin.

"Cafodd hyd yn oed aderyn y to gartref, a'r wennol nyth iddi ei hun, lle mae'n magu ei chywion …" (Salm 84:3) Rhyfeddodd plant y Sêt Fawr wrth i'n Pregethwr Gwadd dynnu dwy nyth o gwdyn ar ddechrau **Oedfa'r Bore**. Dwy nyth wahanol iawn - un wedi ei chreu o frigau a choesau planhigion wedi'u sychu, a'r llall o fwswgl, gwlân a phlu. Soniodd y Parchedig Beti Wyn James am gywreinrwydd y nythod cyn adrodd stori am aderyn yn adeiladu nyth o dan foned car - safle hollol anaddas! Arweiniodd hyn ymlaen i'r ddameg gyfarwydd honno o adeiladu dau dy - un ar y graig a'r llall ar y tywod, safle arall gwbl anaddas! Fe'n hatgoffwyd gan ein Cennad, yn oedolion a phlant, mor bwysig yw sefydlu ein bywyd ar sylfaen gadarn - nid ar dywod (na chwaith ar injan o dan foned car!) mae adeiladu cartref a bywyd!



Cariad Duw oedd testun gweithgarwch y plantos yn yr Ysgol Sul. Braf oedd cerdded i mewn i'r Festri ar ddiwedd yr Oedfa a gweld y muriau wedi eu gorchuddio â chrefft y plant wrth iddynt trwy grefftwaith gyfleu'r Cariad Rhyfeddol hwnnw. Trafod ***Esther*** bu'r Bobl Ifanc yn ei wneud gan ofyn cyfres o gwestiynau yn codi o hanes yr Hebraes a roddodd ei bywyd mewn perygl i achub ei phobl rhag cynllwyn Haman, y Prif Weinidog. *Oes yna adegau pan mae yn anodd sôn wrth eraill am ein Ffydd? A oes rheidrwydd arnom fel Cristnogion i sôn am ein Ffydd bob cyfle gawn? Pa mor anodd yw sefyll i fyny dros rywbeth pan fydd yna bosibilrwydd y bydd hynny yn eich peryglu?* Yn sgil y cwestiwn olaf, cafwyd trafodaeth dreiddgar iawn am Rosa Parkes (1913 - 2005) (llun), Martin Luther King Jr. (1929 - 1968), Gwrthwynebwyr Cydwybodol yng nghyfnod y Rhyfeloedd Byd ac Ymgyrchwyr dros yr Iaith Gymraeg.



Cyfrol John Davies gyda lluniau gan Marian Delyth: ***Cymru - y 100 lle i'w gweld cyn marw*** oedd 'testun' anarferol **Oedfa'r Bore**. Dewis tri lle y dylem, fel Cristnogion, ymweld â hwy yn rheolaidd mewn bywyd wnaeth ein Pregethwr. Yn gyntaf, **Gardd Eden** (llun: The Garden of Eden gan Jan Brueghel (1568-1625)) - gardd a greodd Duw. O ymweld â hon cawn ein hatgoffa o fwriad Duw ohonom o'i gymharu â'r ffordd mae'r rhyw ddynol wedi mynnu ei dilyn. Nid Byd 2011 oedd bwriad Duw. Mae angen i ni adfer paradwys (gair Persiaidd yn golygu 'gardd Bethlehemâ wal yn ei hamgylchynu') gan glirio chwyn casineb, amheuon, trais a gormes, a hau hadau maddeuant, trugaredd a chariad ar gyfer y dyfodol. Tref gyffredin oedd **Bethlehem** (Ty Bara); mynd yno oherwydd bod rhaid iddynt wnaeth Joseff a Mair. Unwaith y flwyddyn y tueddwn i ymweld â Bethlehem; mae angen i ni ymweld â hi yn gyson i'n hatgoffa fod Duw wedi dod atom yn ei gariad, yn gwmni ar y daith. Manteisiwn ar y cyfle i ddod i adnabod Duw yma. **Golgotha** yw'r trydydd lle i'r Cristion ymweld ag ef yn gyson. Tomen sbwriel

Jerwsalem: lle ffiaidd, drewllyd a Golgothagwahanol iawn i'r darlun rhamantus yng nghyfieithiad Elfed (1860-1953) o eiriau C F Alexander (1818-95): *"Draw, draw ymhell mae gwyrddlas fryn"* (*C.Ff.* 490). Gwell gennym fyddai osgoi'r llecyn hwn oherwydd ei gysylltiadau ond rhaid i Gristnogion ymweld, â'n meddyliau ac â'n calonnau, â Chalfaria; rhaid wrth gofio, rhaid wrth weld y gwawd, y "*lle gorffennodd Iesu farw, lle dechreuais innau fyw;*" (Eifion Wyn 1867-1926, *C.Ff.* 503). Cymru - y 100 lle i'w gweld cyn marw. Mae yna gyfrol arall sydd wedi goroesi a phontio cenedlaethau ac sydd yn dal yn ysbrydiaeth i ni - **Y Beibl**. Arwain y gyfrol hon gredinwyr i ymweld â llefydd allweddol yn ein datblygiad, llefydd sydd yn ein harwain i adfer paradwys ac i ryfeddu o'r newydd at Gariad Duw.

Dychwelyd at Ddameg y Ty ar y Tywod a'r Ty ar y Graig wnaeth ein Cennad yn **Oedfa'r Hwyr**. Crefft Iesu wrth bregethu oedd medru crynhoi'n syml Gwirioneddau Mawr Bywyd. Dyna a gawn yn Efengyl Mathew (8: 24-28) ac Efengyl Luc (6: 47-49). Fe'n hatgoffwyd gan y Parchedig Beti Wyn James ein bod i gyd yn adeiladwyr; yn ein byw dyddiol, yn ein perthynas â'n gilydd ac yn ein hymwneud ag Achos Crist. Er bod yna wahaniaethau yn y ddwy Efengyl (tywod yn Mathew a phridd yn Luc, er enghraifft!) mae yna nifer fawr o gyffelybiaethau y'u crybwyllir: y ddau adeiladydd yr un mor awyddus i adeiladu, y tai yn hynod o debyg o ran eu gwneuthuriad, a'r un storm yn chwythu. Onid felly Cymdeithas 2011? Nid oes gwahaniaeth rhwng Cristion, Mwslim ac Iddew, credadun ac anghredadun, crefyddwr neu ddyneiddiwr yn eu dymuniad i adeiladu gwell byd; mae'r byd gwell hwnnw yn rhyfedd o debyg ym meddyliau pawb; ac mae pawb yn wynebu stormydd bywyd - ni wahaniaethir oherwydd statws, cred na chefndir. Ond, meddai'r Pregethwr Gwadd, mae yna hefyd wahaniaethau! Nid yw adeiladu ar graig yn hawdd - tipyn haws gosod sylfeini mewn tywod. Nid yw ffordd y Cristion yn hawdd: cymaint haws bod yn ddi-hid na gofalus, cymaint haws dial na maddau. Nid trwy wneud Cristnogaeth yn hawdd mai apelio at eraill, rhybuddiodd; gochelwn rhag gwneud Cristnogaeth yn rhywbeth 'neis-neis' - nid dyna apêl Crist! Gofidio am heddiw wnaeth y gwr a adeiladodd ei dy ar y tywod (neu bridd!); creu rhywbeth ar gyfer y presennol heb feddwl am y dyfodol. O gymryd dehongliad Luc efallai mai codi'r ty ar wely sych yr afon a wnaeth yr adeiladydd hwn - ni feddyliodd am lifogydd y gaeaf. Gwae ni, fel Cristnogion, os cawn ein gweld yn byw ein bywydau ar gyfer heddiw gan golli golwg ar yr hyn sydd i ddod yfory. Yng ngeiriau William Williams (1717-91) "*Dyma sylfaen gadarn, gref drwy fy mywyd; credu, ac edrych arno ef, yw fy ngwynfyd; ynddo bellach drwy bob pla y gobeithia'; ac mewn rhyfel canu wna': Halelwia!*" (*C.Ff.* 358).

Daeth Wythnos Cymorth Cristnogol i'w therfyn! O dan gyfarwyddyd Margaret Davies, Cydlynydd y Cylch Dinasyddiaeth, cawsom gyfle yn ystod yr Wythnos, a chyn hynny, i fynychu a chymryd rhan mewn nifer o gyfarfodydd: Oedfaon, Bore Coffi, Noson Gawl ***PIMS*** a The Prynhawn. Sylweddolwn, er gorffen yr Wythnos, nad yw'r angen am gymorth, na chwaith ein dyletswydd at ein brodyr a'n chwiorydd ledled y byd, yn lleihau. Cofiwn sut y'n dwysbigwyd y Sul diwethaf, o sylweddoli maint ein trachwant a'n hymbleseru, i weddïo: *"Rhoddwn gymorth fel Crist i'n cyd-ddyn; lle nawr mae anobaith, gobaith fydd."*



Mae ***Adroddiad Blynyddol Eglwys Annibynnol Minny Street*** wedi'i gyhoeddi ac yn ystod y bythefnos nesaf bydd Bugeiliaid yr Eglwys yn dosbarthu hwn, ynghyd â'r rhifyn diweddaraf o'r ***Aelod***, ymysg yr aelodau. Derbyniodd ein Taith Grawys sylw yn nhudalennau'r **Tyst** yr wythnos hon ac mae gennym bellach dudalen ar **Golwg360** a fydd yn rhestri Cyfarfodydd y Sul o wythnos i wythnos.

Cynhadledd Cristnogaeth 21 – 21 Mai 2011

Ymunodd aelodau o gynulleidfa Eglwys Minny Street â chynadleddwyr eraill o draws Cymru (ac un o Birmingham!) yn Festri Eglwys Salem, Treganna yng Nghynhadledd Flynyddol Cristnogaeth 21 heddiw. Cawsom gyfle i wrando ar ddwy ddarlith gan y Parchedig Dave Tomlinson *(llun)*, Ficer Eglwys Sant Luc, Holloway, Llundain ac awdur toreithiog gan gynnwys *The Post-evangelical, Running into God* a *Re-enchanting Christianity.* Bu Dave Tomlinson am nifer o flynyddoedd yn arwain eglwys Holy Joe's yn Clapham, Llundain; eglwys oedd hon oedd yn symud o dy tafarn i dy tafarn gyda'r aelodau'n cyfarfod yn wythnosol i astudio'r Beibl a thrafod goblygiadau'r Ffydd.

Borderline Faith: belief in the 21st Century oedd teitl Darlith y Bore ac ynddi cawsom drafodaeth ymholgar ar ddibyniaeth ffydd ar gred ac anghred - y naill fel y llall yn chwarae rhan hanfodol bwysig. Soniwyd hefyd am dyfu'n bersonol, ac fel eglwysi, yn y ffindir rhwng sylfaen a thraddodiad ar yr un llaw, a datblygiad graddedig i gyd-fynd â bywyd cyfredol ar y llaw arall. Gofynnwyd onid uniongrededd graddol (*progressive orthodoxy*) dylai nod ein heglwysi fod? Ffydd sy'n derbyn maeth o fod wedi'i gwreiddio yn nigwyddiadau'r gorffennol ond sy'n cael ei ffurfio a'i datblygu gan ryngweithiad dynamig â bywyd a byd 2011. *Borderline community: re-spiriting Church for a new age* oedd testun Darlith y Prynhawn. Braidd yn annisgwyl, bu i ni ddechrau trwy wylio clip ffilm *Favourite Sandwiches* o'r gyfres *Gavin and Stacey*. Heriodd y darlithydd ni trwy gynnig mai un o brif ddyletswyddau'r Eglwys Gristnogol yw creu cymunedau agored ag iddynt ymdeimlad o awdurdod. Treuliodd weddill y ddarlith yn trafod, gan ddefnyddio nifer o enghreifftiau, yn gyntaf, sut mae angen i'r eglwys ddatblygu ei hysbrydolrwydd. *"Nid trwy ddefnyddio technoleg y diwellir anghenion ysbrydol cynyddol ein pobl*", meddai, gan gyfeirio at gredinwyr ac anghredinwyr. Yn ail, fe'n hatgoffwyd, fel y cawn ein hatgoffa gan ein Gweinidog o Sul i Sul, bod rhaid sicrhau ac estyn croeso i bawb yn ein cymdeithas. Cymdeithas agored a heb ffiniau yw'r Teulu Cristnogol.



Yn ystod y dydd cafwyd hefyd amser i Drafodaethau Grwp, ynghyd â chlywed adroddiadau am weithgarwch celloedd **Cristnogaeth 21** ar draws Cymru. Bydd Cell Caerdydd yn cynnal cyfres o gyfarfodydd o Fis Medi 2011 ymlaen gyda'r bwriad o drafod, mewn mwy o fanylder ac yng nghyd-destun ein sefyllfa yn y brifddinas, rhai o brif bwyntiau'r ddwy ddarlith oleuedig a gyflwynwyd i ni heddiw.

Cymorth Cristnogol: Te Prynhawn – 20 Mai 2011

Ers y Sul, bu aelodau Eglwys Minny Street yn hael mewn amser a chyfraniad i gefnogi'n hymgyrch tuag at Cymorth Cristnogol. I ddod â'n gweithgarwch ffurfiol Wythnos Cymorth Cristnogol i ben, prynhawn heddiw daeth criw o aelodau'r Eglwys ynghyd i '**De Prynhawn**' ar aelwyd Cydlynydd y Cylch Dinasyddiaeth.

Bu'r chwiorydd yn brysur yn paratoi ar gyfer y 'Te'! 'Roedd gweld y bwrdd yn llawn o bob math o deisen a chacen yn wledd i'r llygad! Braf oedd gweld hyd yn oed y mwyaf gofalus o Ferched Minny Street yn anghofio'r deiet am un prynhawn ac yn mwynhau brechdanau, '*meringues*', ' *sponge*' a'r 'pice bach'. Y cyfan er sicrhau cymorth

ymarferol, trwy ein Hasiantaeth fel Eglwysi Cristnogol, i'n brodyr a'n chwiorydd ledled y byd sydd heb fodd i fwynhau'r fath ddanteithion.

Yng nghwmni ffrindiau a phawb yn sgwrsio'n hamddenol o amgylch y bwrdd 'roedd yn deimlad

cynnes ein bod, wrth fwynhau ysbaid, yn helpu gwaith Cymorth Cristnogol. Casglwyd swm anrhydeddus i'w ychwanegu at gasgliadau eraill yr Wythnos. Daeth y Te i'w derfyn ond wrth adael sylweddolem nad oedd y gwaith yn gorffen, a'n bod, fel soniodd y Gweinidog yn yr oedfa ar Sul Dechrau'r Wythnos *"yn perthyn i deulu, y mwya'n bod - teulu'r byd; a tithau, ein Duw, yw'r tad sy'n caru ni i gyd; ond mae rhai o'th blant yn cael gormod a rhai yn cael dim."*

Munud i Feddwl – 18 Mai 2011

"Afghanistan. Awyrgylch o ofn, bomiau a thensiwn nerfus. A allwn ni ddianc? Cymdeithas yn gormesu. Anhrefn yn teyrnasu. Anghyfiawnder yn trechu. A allwn ni dorri'n rhydd? Byw mewn perygl. Ffrwydron tir. Herwgipio. Llygredigaeth. Rhaid i ni roi terfyn ar hyn nawr." Darllenwch **Munud i Feddwl** ein Gweinidog!

Munud i Feddwl – 17 Mai 2011

Y Parchedig Ddr Gwilym Davies, Cynghrair y Cenhedloedd, Y Cenhedloedd Unedig, Bedlinog a Genefa, Urdd Gobaith Cymru, 1922, ac Ysgolion Uwchradd Bryntawe a Llandeilo Ferwallt, Abertawe. Beth sy'n cysylltu'r rhain i gyd? Os am ateb trowch at **Funud i Feddwl** y Gweinidog. Daw un arall yfory!!!

PIMS: *Chez Minny* - 16 Mai 2011

Ers Mis Medi 2010 mai aelodau *PIMS* wedi rhoi cryn sylw i waith dyngarol Cymorth Cristnogol. Bu Aled Pickard a Mari Mcneill yn sôn am y gwahanol agweddau o waith Cymorth Cristnogol, ac yna cafwyd ail ymweliad gan Mari ar ôl iddi ddychwelyd o'i thaith i Cambodia.

Heno aethpwyd ati i gynorthwyo'r Asiantaeth yn ymarferol trwy wahodd cynulleidfa'r Eglwys i ymuno â ni mewn noson o gawl a bara. Buom yn ffodus iawn i sicrhau gwasanaeth y cogydd enwog, *Chef de Cuisine* Owain Llyr Evans, ac ymysg y cawl a gynigiwyd 'roedd amheuthunion megis *Bonne Chance* (moron a choriander) a *Audaces Solum* (gespacho 'cwl'!). Casglwyd swm teilwng iawn a fydd yn cael ei ychwanegu at gyfraniadau aelodau'r Eglwys o weithgarwch mae'r Cylch Dinasyddiaeth wedi ei drefnu yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol 2011. Braf oedd croesawu pawb i'n plith heno, ac wrth weini ar y byrddau, ynghyd â sicrhau ymborth i bawb, cawsom gyfle am sgwrs a chymdeithas i ddod i adnabod ein gilydd yn well.

Gwasanaeth Coladu a Gosod: Eglwys Dewi Sant - 16 Mai 2011

Heno, ymunodd rhai o aelodau Eglwys Minny Street ag aelodau Eglwys Dewi Sant a chyfeillion o eglwysi Caerdydd a Gorllewin Cymru mewn Gwasanaeth i Goladu a Gosod y Parchedig Dyfrig Lloyd yn Ficer y Plwyf. Ef hefyd bydd Swyddog Iaith Esgobaeth Llandaf. Archesgob Cymru, y Parchedicaf Ddr Barry Morgan oedd yn arwain yr oedfa. Dymunwn Fendith Duw ar weinidogaeth y Parchedig Dyfrig Lloyd yn ein plith yn y brifddinas.

Oedfaon Cymorth Cristnogol – 15 Mai 2011

Trodd Oedfa Foreol Eglwys Minny Street yn un o Sesiynau'r Cenhedloedd Unedig heddiw wrth i'r Gweinidog rannu'r gynulleidfa yn gynrychiolwyr gwahanol wledydd y byd. Gwledydd yr hen Undeb Sofietaidd a Tsiena ar un ochr; Gwledydd Ewrop, Unol Daleithiau'r America, Canada, Seland Newydd a Siapan yn y canol; a gwledydd tlotaf y byd - Nicaragua, Guinea-Bissau, Somalia, Ethiopia a Niger - ar yr ochr arall. Aeth ati wedyn i ddangos ymborth arferol, dyddiol dinasyddion y gwahanol wledydd - danteithion brecwast, byrbryd bore, cinio, te, swper a rhywbeth cyn mynd i'r gwely yng Ngwledydd y Gorllewin; dysgl fechan o reis a chan yn hanner llawn dwr budr i'w rannu ymysg y gwledydd tlotaf. Amharod iawn oedd trigolion Ewrop i yfed dwr priddog gwledydd yr Affrig. Prociwyd ein cydwybod mewn ymgom-weddi rhwng y ddau gyfuniad o wledydd: *"'rydym yn byw mewn tai moethus, cysurus a glân, dwr pur a lifa'n gyson, cawn fwyd, cawn wres a chysur; ond eraill o'n teulu sy'n dlawd, heb ddim dwr pur i'w yfed, heb ddigon o fwyd."* Fe'n dwysbigwyd ymhellach, o sylweddoli maint ein trachwant a'n hymbleseru, i weddïo: *"Rhoddwn gymorth fel Crist i'n cyd-ddyn; lle nawr mae anobaith, gobaith fydd."* Yn addas iawn, a ninnau wedi bod yn myfyrio ar yr hawl i fyw i holl Blant Duw, ***Bywyd*** oedd thema Adnodau'r Oedolion.



Hanes Esther yr Hebrees, a fagwyd gan ei chefnder Mordecai, a briododd y Brenin Ahasferus, ac a roddodd ei bywyd mewn perygl i achub ei phobl rhag cynllwyn Haman, y Prif Weinidog, yw Thema Astudiaeth yr **Ysgol Sul** y mis hwn. Heddiw, bu'r plantos wrthi yn clywed am Esther a dysgu ystyr ei henw. Y dehongliad mwyaf cyffredin yw mai '*seren*' yw ystyr Esther, a chafwyd cyfle yn y Sesiwn Gwaith Crefft i ddylunio a chreu sêr! Dilynwyd yr Oedfa Foreol gan gyfarfod o'r **Cylch Plant** a buont wrthi yn trafod cynlluniau'r dyfodol a natur **Digwyddiad Diwedd Tymor yr Ysgol Sul a gynhelir Brynhawn Sul, 3 Gorffennaf 2011**.

Edrych tuag at Eglwys Antioch am ganllawiau i Eglwys Minny Street a wnaeth y Gweinidog yn yr Oedfa Foreol gan ganolbwyntio ar: *"Penderfynodd pob un o'r disgyblion gyfrannu, yn ôl fel y gallai fforddio, at gynhaliaeth eu cyd-gredinwyr oedd yn trigo yn Jwdea."* (Actau 11:29). A hithau'n ddechrau **Wythnos Cymorth Cristnogol** nid rhyfedd mai ***Rhoi Cristnogol*** oedd thema'r neges. Fe'n hatgoffwyd mai arwydd yw ein haelioni o'n cariad; mesur o hyd, lled, uchder a dyfnder ein cydwybod Gristnogol. Soniodd y Gweinidog am dri math o roi Cristnogol (llun: Eglwys Gynnar yn Antioch). **Haelioni ariannol:** mae rhoi o'n eiddo yn rheidrwydd i Gristnogion. Gofyn yr eglwys am

gyfrannu cyson, tawel a chydwybodol am fod ganddi waith i'w wneud! Nid oes angen arian ar eglwys farw! **Rhoi'r hunan:** tra bod angen cefnogaeth gyllidol ar eglwys fyw, gwae'r eglwys sy'n credu mai prif nod ei bodolaeth yw arian ac elw. Rhoddodd Iesu o'i hunan a'r Hwn a roddodd cymaint sydd am gael benthyg ein hamser a'n hegni, ein dawn a'n gallu. Dylem felly roi o'r cwbl ydym ac o'r cwbl a feddwn. **Haelioni meddwl a barn:** eglwys ifanc oedd Eglwys Antioch ond 'roedd ganddi afael diogel ar hanfodion y Ffydd. Eglwys agored a goddefgar ond nid oedd yn perthyn ar safbwyntiau llac! Bu i'r Gweinidog gymharu Eglwys Minny Street â chwch yn hwylio'r cefnfor. Fe'n hatgoffwyd bod Duw yn galw arnom i beidio aros yn niogelwch y dyfroedd bâs ond yn hytrach i fentro allan i'r dyfroedd dyfnion. Nid difa'r eglwys a wna'r dyfroedd peryglus ond datguddio'r gwir eglwys.

Heno, fe'n harweiniwyd mewn gweddi yng ngeiriau'r Salmydd: "*Diolchaf i ti, Arglwydd, a'm holl galon, adroddaf am dy ryfeddodau*" (Salm 9:1). Trwy fraslun llawrydd canolbwyntiwyd ein myfyrdodau a'n hymbil ar yr haul, y bryniau, y dwr a'r planhigion - sy'n rhoi nerth, cysur, cynefin, bywyd a chysur i ni. Aros gyda thema Wythnos Cymorth Cristnogol a wnaethom yn yr Oedfa Hwyrol gan droi ein sylw at eiriau adnabyddus o'r Bregeth ar y Mynydd *"Chwi yw halen y ddaear: ond os cyll halen ei flas, a pha beth yr helltir ef? Nid yw'n dda i ddim bellach ond i'w luchio allan a'i sathru dan draed gan ddynion"* (Mathew 5:13). Os cyfarwydd y testun anghyfarwydd oedd y dehongliad! ***to halas tes ges:*** *halas* yw'r gair Groeg am halen. Dengys gramadeg y cymal bod yr "Chwi yw halen y ddaear"?halen yno er mwyn y ddaear. Ystyr *ge* yn *ges* yw pridd. Felly, cynnig y Groeg mae adnodd er lles y pridd yw'r *halas* - gwrtaith. Go brin fod halen yn wrtaith! Yn y Groeg hefyd defnyddir *moranthe* am *"cyll ... ei flas"* gan olygu colli effeithiolrwydd. Cynigiodd y Gweinidog ddehongliad amgen o'r geiriau adnabyddus: nid gwaith pobl Crist yw cynnal a chadw hen drefn rhag llygru nag ychwanegu ychydig o flas. Yn hytrach, disgwylir i ddisgyblion Crist fod yn llawer mwy grymus a chadarnhaol, disgwylir iddynt greu cynnwrf mewn cymdeithas. Dylai'r Cristion fod fel gwrtaith, ar waith yn ddistaw ond yn anochel, nes bywiocau'r cyfan. Yng nghyd-destun **Wythnos Cymorth Cristnogol** dylem atgoffa'n hunain a'n gilydd, ein cymdeithas a'n byd, nad ein gwaith yw cadw'r hyn sydd o'n cwmpas rhag llygru ond, yn hytrach, newid y cyfan er gwell. Golyga hynny, weithio fel gwrtaith mewn pridd sydd yn wan gan ddifaterwch, diflastod, gorthrwm a thlodi. Nid bod yn halen yw ein gwaith ond, yn hytrach, gwrtaith bywydol, rhinweddol a thrawsffurfiol.

Ar ôl ein Hoedfa Hwyrol cynhaliwyd cyngerdd gan Gantorion Ardwyn, o dan arweiniad David Leggett, er budd ein helusen, **Yr Ystafell Fyw**. Bu Angharad Mair, cyd-aelod ac un o Ymddiriedolwyr yr Elusen, yn son am y gobaith y bydd yr Ystafell yn agor yn swyddogol ym Mis Medi 2011. Cyflwynwyd rhaglen amrywiol gan y Côr: o *Hosanna Filio David* (Sul y Blodau) gan Tomos Luis de Victoria (1548-1611) i *Ubi Caritas* (Dydd Iau Cablyd) mwy cyfoes Maurice Durufle (1902-1986). Cafwyd hefyd ganu eneiniedig o'r emyn-dôn *Aberystwyth* wedi ei osod gan y cyfansoddwr o Gaerdydd, Jeffrey Howard a phleser oedd gwrando ar Janice Ball yn canu'r organ mewn datganiad o waith Robert Schuman (1810-1856) *Sketch 2. Opus 58*.

Bore Coffi Cymorth Cristnogol – 14 Mai 2011

Braf oedd gweld Festri'r Tabernacl, Yr Âis yn gyfforddus brysur yn ystod y bore wrth i Eglwysi Cymraeg y brifddinas ddod at ei gilydd i gefnogi gwaith **Cymorth Cristnogol**. Bu'n cyd-aelodau Margaret Evans, Margaret Harries ac Aerona Warrington wrthi yn ddyfal dros yr wythnosau diwethaf yn gofalu bod Stondin Gacennau Minny Street yn wledd i'w gweld (a'u blasu!). Buan y'i cliriwyd! Cawsom groesawu'r Parchedig Robin Samuel, Cydlynydd Cymorth Cristnogol yn Ne Cymru, i'n plith a gwerthfawrogwyd y cyfle i gwmnïa, sgwrsio a thrafod ein cyfrifoldebau Cristnogol tuag at ein brodyr a'n chwiorydd ledled y byd.

Eleni, canolbwyntia **Wythnos Cymorth Cristnogol** ar dyfwyr coffi Nicaragua a thros y dyddiau nesaf byddwn ninnau yn Eglwys Minny Street yn cofio am y rheini sydd heb fod yn mwynhau'r breintiau a'r cyfleoedd a ddaw'n feunyddiol i ni:

15 Mai 2011 am 1030. ***Oedfa Cymorth Cristnogol Eglwys Annibynol Minny Street*** o dan ofal ein Gweinidog. Casgliadau rhydd oedfaon y dydd i Gymorth Cristnogol.

16 Mai 2011 am 1900. ***PIMS*** yn gwahodd aelodau Eglwys Minny Street i ddigwyddiad yn dathlu gwaith Cymorth Cristnogol.

20 Mai 2011 am 1500. ***Te Prynhawn*** ar aelwyd Margaret Davies. Er budd Cymorth Cristnogol.

Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Cymorth Cristnogol – 12 Mai 2011

cymorth cristnogol

Daeth cynrychiolaeth o nifer o Eglwysi Cymraeg y Ddinas ynghyd yn Festri Minny Street heno i Wasanaeth Cymorth Cristnogol dan nawdd **Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd**. Fe'n hanogwyd, ar drothwy Wythnos Cymorth Cristnogol, gan Gadeirydd y Cyngor, y Parchedig Menna Brown, i gofio am waith Cymorth Cristnogol: ***Saith Niwrnod, Un Nod - helpu'r tlawd allan o'u tlodi***. Ein Gweinidog arweiniodd y defosiwn trwy ddarllen geiriau cyfarwydd o'r Bregeth ar y Mynydd: ***Halen a Goleuni*** (Mathew 5: 13-16) a'n harwain mewn gweddi dros waith a gweithwyr Cymorth Cristnogol.

Canolbwyntio ar waith partneriaid Cymorth Cristnogol ar draws y byd wnaeth Aled Pickard, Swyddog Datblygu Gwirfoddolwyr Cymorth Cristnogol, yn ei anerchiad. Bu'n son am ei gyfnod yn Ne'r Affrig a'i brofiadau yn Cape Town, yn gweithio gyda *Wola Nani* - un o bartneriaid Cymorth Cristnogol sydd yn cynnig gofal a chefnogaeth i bobl â HIV. Sefydlwyd *Wola Nani* yn 1994; gan ganolbwyntio ar anghenion merched HIV+ a'u plant, mae Wola Nani yn cefnogi pobl sydd yn byw gyda'r firws i ddatblygu sgiliau a byw bywyd llawn. Mae ganddynt hefyd raglen benodol

ar gyfer plant amddifad. Clywsom sut y bu i Ruth, un o'r crefftwyr sydd bellach yn creu'r powlenni y bu i nifer ohonom eu prynu yn ystod ein hapêl yn 2008-9, symud o Johannesburg i Cape Town yn dilyn marwolaeth ei gwr ac ymuno â *Wola Nani*. Cynyddodd ei hunanhyder a chafodd fodd i sicrhau bwyd iddi hi a'i dau blentyn; y ddau bellach yn medru mynychu'r ysgol. Mae dylanwad gwaith Cymorth Cristnogol, trwy gyfrwng ei bartneriaid, yn medru trawsnewid ac achub bywyd. Clywsom hefyd am waith *Soppexcca*, cwmni cydweithredol o ffermwyr coffi yn Nicaragua, a'r modd mae'r cwmni hwnnw yn sicrhau bywyd gwell i'r ffermwyr a'u teuluoedd trwy eu galluogi i adeiladu ysgolion, toiledau a ffatrïoedd bychain.

Pwysleisiodd Aled sut mae'n cyfraniadau i Gymorth Cristnogol yn bellgyrhaeddol ac yn cael dylanwad da ar dlodi. Ymysg rhai o'r ffeithiau ysgytwol a rannwyd heno oedd bod 2.6 biliwn o bobl heb unrhyw systemau carthffosiaeth; 1.1 biliwn heb fodd i gael dwr glân a bod 25 miliwn o blant dan 5 oed yn marw bob dydd. Rhaid i ninnau sylweddoli bod ein **ffordd ni o fyw**, yn anfwriadol neu beidio, yn ecsbloetio pobl ac yn sicrhau fod tlodi yn parhau. Efallai mai ystadegyn mwyaf dirdynnol y cyflwyniad oedd bod hyd yn oed rhywun sydd yn derbyn yr isafswm cyflog yng Nghymru ymysg yr 11% cyfoethocaf yn y byd! Cyn cloi ei anerchiad cyflwynodd Aled fersiwn ***Beibl.net*** o hanes ***Y Dyn Cyfoethog a Lasarus*** (Luc 16: 19-25) (llun: Dameg Lasarus a'r Dyn Cyfoethog gan Frans Franken I (1542-1616)).

Mae yna wers i'w dysgu; ni allwn, rhybuddiodd Aled, gau ein llygaid rhag *"(g)weld angen mawr y byd"* (W. Rhys Nicholas 1914-1996; *C.Ff.* 841). **Mae cefnogi Cymorth Cristnogol, mewn gweddi a chyfraniad, yn gwneud Ewyllys Duw.**

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Eglwysi yn gyfle i ni glywed am **Cristnogaeth 21** a hynny yng nghapel Eglwys Salem, Treganna ar 9 Fehefin 2011.

Munud i Feddwl - 11 Mai 2011

Awyren yn hedfan yn uchel dros fôr a thir. Arni, yn eistedd wrth ymyl ei gilydd mae dau ddyn. Mewn braw meddai un wrth y llall *"Arswyd y byd! Edrycha! Mae'r injan yr adain chwith ar dân!"* Atebodd ei gymydog, *"Diolch byth ein bod ni'n eistedd ar yr ochr dde!"* Beth sydd a hyn i wneud ag **Wythnos Cymorth Cristnogol**? Darllenwch **Munud i Feddwl** ein Gweinidog!

Ffa Coffi, Dameg y Lefain ac Iesu'n Brif Weinidog! – 8 Mai 2011

I Nicaragua y tywysodd Eirian, Richard, Owain, Elen a Rhodri Jones ni yn yr **Oedfa Foreol Gynnar** i son am waith **Cymorth Cristnogol**. Nicaragua yw ail wlad dlotaf America Ladin (Haiti yw'r tlotaf) gyda rhan fwyaf o'i thrigolion yn byw ar lai na $2 (£1.30) y dydd. Buom yn canolbwyntio ar ysgol ym mhentref La Paz del Tuma a sut mae Ivette, yr athrawes, yn dysgu plant y pentref - clywsom hanesion penodol am Meriling, Darwin a Jamnirys. Prin iawn yw'r adnoddau ar gyfer dysgu a chlywsom sut mae Eladio, tad Meriling, am sicrhau ysgol addas i'r gymuned. Ei freuddwyd yw gwneud yr hyn a wnaeth trigolion pentref cyfagos, Los Cerrones, a thrwy dyfu a gwerthu coffi trwy asiantaethau Masnach Deg godi digon o arian i adeiladu ysgol newydd. Ei fwriad yw gweithio gydag un o bartneriaid Cymorth Cristnogol yn Nicaragua - *Soppexcca*. Gorffennwyd yr oedfa hynod effeithiol mewn gweddi dros drigolion

Nicaragua i'n hatgoffa wrth agosáu at Wythnos Cymorth Cristnogol o'r rôl y medrwn eu chwarae: *"Diolch i ti, O! Dduw, fod gwaith caled pobl Los Cerrones wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i'w cymuned. Diolch iti am Soppexcca sydd wedi helpu sicrhau hyn. Gweddïwn dros y cymunedau eraill ym 'mhrifddinas coffi' Nicaragua sy'n dal heb ddwr glan nac ysgol addas. Diolch am ei gobeithion y gall pethau newid, a helpa ni i'w helpu hwy i wireddu breuddwyd. Amen."*

Beth petai'r Arglwydd Iesu Grist yn sefyll etholiad? Faint ohonom fyddai'n pleidleisio iddo? A fyddai ei faniffesto yn apelio? Dyna'r cwestiynau bu'r Gweinidog yn eu taflu atom yn yr **Oedfa Foreol** gan ddarllen memorandwm cyfrinachol oddi wrth arbenigwr cysylltiadau cyhoeddus at y rheini fyddai'n ymgyrchu dros yr Iesu: *"Cymeriad deniadol a hoffus, angen iddo ymdacluso ... rhaid eillio'r barf! Dyn dethol ei eiriau - hynny'n rhinwedd. Angen iddo sôn llai am newid cyfeiriad a ffordd o fyw. Ei berthynas ag Ioan Fedyddiwr yn anffodus. Mae ganddo ei argyhoeddiadau - hyn yn bwysig; ond mae datgan argyhoeddiadau yn gyhoeddus yn gallu bod yn eithriadol beryglus! Argyhoeddiadau heddiw yw pynciau trafod yfory ... felly angen cadw 'Teyrnas', hepgor 'Duw'; cadw 'Heddwch a Chymod' i sicrhau bod yr heddychwyr yn hapus, ond angen caledi trwy sôn am ddiogelwch fel sylfaen i heddwch, hynny yw mor hanfodol yw grym milwrol. Os bydd gormod o bwyslais ar heddwch, rhaid defnyddio "nid i ddwyn heddwch y deuthum ond cleddyf" (Mathew 10:34). Mae Iesu yn dweud gormod am arian! Mae pawb yn poeni am arian … angen ei ddysgu i siarad amdano heb ddweud dim yn benodol! Angen i Iesu bwysleisio mai cyfrinach llwyddiant yw gweithio'n galed a byw yn dda a glan. Anodd delio a'i gefndir teuluol - nid yw'n briod ac nid oedd ei fam yn briod pan esgorodd arno. Argyhoeddiad dwfn y dylai fod gofal meddygol, safonol a llawn i bawb. I grynhoi: Gwr ifanc o gefndir cyffredin, bu farw ei dad a bu'n cynnal ei fam a'i deulu am flynyddoedd. Cymeriad deniadol a charismatig. Hanfodion ei faniffesto: heddwch a chymod; caru gelynion; codi pontydd; rhannu cyfoeth; diogelu'r tlawd a'r difreintiedig; iechyd a gofal meddygol i bawb a hunan aberth. Mae yna drafferthion, ond o ddofi ychydig arno, ei dacluso, ei gyfeirio a'i gynghori mae gobaith! Diemwnt amrwd o ymgeisydd!"* Faint ohonom fyddai'n pleidleisio iddo? (llun: *Jesus among his Students gan Rembrandt van Rijn 1606-1669)*

Yn ôl ein harfer misol buom yn canolbwyntio ar emynydd yn Oedfa'r Bore. Emynydd Albanaidd ac awdur yr emyn *"Courage Brother do not stumble"*, Norman MacLoed (1812-1872; llun), oedd yn derbyn ein sylw heddiw. Ffefryn gan y Frenhines Fictoria, yn bregethwr cyson yn Eglwys Crathie, ger Balmoral, ac yn ofalus o'i ofal ohoni wedi marw'r Tywysog Albert. Athrylith o weinidog! Yn ei gyfnod yng Nglasgow, bu'n darparu addysg, gofal meddygol, banc a chartref i blant amddifad a thlawd. Safodd yn erbyn llif y farn gyhoeddus sawl gwaith. Mynnodd gynnal Oedfaon Dillad Gwaith: *"I began four weeks ago my sermons to working men and women in their working clothes, excludin' all who had clothes fit for church. And by God's mercy I have crammed the church with such. This is grand." (Dyddiadur Norman MacLeod 1857)*. Er iddo, yn 1869, gael ei ethol yn Gymedrolwr Eglwys yr Alban, yng Nghymanfa Gyffredinol yr Eglwys yn 1859 safodd yn erbyn llif dirwest. 'Roedd cynnig ger bron mai'r unig ffordd i atal meddwdod oedd trwy lwyrymwrthod. Cododd ar ei draed, gan ddatgan bod y sawl a oedd yn gwthio'r fath syniad yn fwy llym na'r Bod Mawr! Pam felly ysgrifennu'r emyn, wedi'i selio: *"Bydd yn gryf a dewr; paid ag ofni na bod yn wangalon"* (1 Cronicl 22:13), ac a gyfieithwyd yn ddiweddarach gan Ben Davies (1864-1937; *C.Ff.* 735): *"Bydd yn wrol, paid â llithro?"* Hanesyn o ddiddordeb mawr i ni fel Anghydffurfwyr: ysgrifennwyd y geiriau i gyfaill o weinidog a oedd o dan lach ei enwad am ganiatáu i leygwr bregethu yn ei bulpud! 'Roedd pennill ychwanegol i'r emyn gwreiddiol gyda'r geiriau:

"Trust no party, church or faction, Trust no leaders in the fight.
But in every word and action Trust in God and do the right"
(allan o The Edinburgh Christian Magazine, 1857)

Heno, fe'n bendithiwyd trwy ymuno yng **Ngwyl Bregethu Flynyddol** ein cyfeillion yn Eglwys y Crwys. Y Parchedig Gareth Edwards, Deganwy, oedd y pregethwr gwadd. *"Y mae teyrnas nefoedd yn debyg i lefain; ..."* (Mathew 13:33); un o Ddamhegion y Deyrnas sydd hefyd yn ymddangos yn Efengyl Luc (Luc 13: 21) oedd testun ein myfyrdod. Nodwyd tair nodwedd am sut y defnyddir lefain wrth bobi. Yn gyntaf, dim ond ychydig o lefain sydd ei angen i godi'r toes. Tanlinella hyn bwysigrwydd yr ychydig; fe'n hatgoffir o'r hedyn mwstard - yr hedyn lleiaf ond *"daw yn goeden fel bod adar yr awyr yn dod ac yn nythu yn ei changhennau"* (Mathew 13: 32).

Cofiwn hefyd bod yr Eglwys Gristnogol wedi tyfu o ychydig - dim ond deuddeg! Dim ond trwy gyffyrddiad â'r toes y gweithia'r lefain; nid yw cadw pellter yn datblygu perthynas - wrth son am Eglwys Crist boed i'n gweddi fod: *"Dysg hi ofni byw yn esmwyth, gan anghofio'r byd a'i loes"* (W Pari Huws 1853-1936; *C.Ff.* 839). Yn olaf, mae gan lefain allu i drawsnewid y toes yn fara. Gall Ffydd yn Nuw a'i Fab drawsnewid byd! Crynhowyd pedair neges y ddameg gan ein cennad: sylwn fod y lefain yn gweithio o'r golwg, yn aml trwy ddylanwadau cudd y daw Teyrnas Dduw i'r amlwg. Nid rhywbeth sydd ond wedi gweithio yn y gorffennol yw'r lefain, mae'n gweithio ac yn fyw heddiw (er efallai nad yw'r modd y gweithreda yr un). Nid gweithio draw yn y pellter wna'r lefain chwaith. Mae ar waith yn ein plith, yn ein canol. Yn olaf, cadarnhaol yw gwaith y lefain bob amser - mae'n gweithio o'r tu mewn tuag at y tu allan. Try'r hanner gwag yn hanner llawn.

Yn ystod yr egwyl rhwng y ddwy Oedfa Foreol cafwyd cyfle i brynu nwyddau **Masnach Deg**. Tra'n dal i ymgyrchu i sicrhau bod archfarchnadoedd Caerdydd yn sicrhau cyflenwad o amrywiol nwyddau yn cario arwydd i arddangos iddynt gael eu cynhyrchu'n deg, estyn y stodin misol, ynghyd â chyflenwad o eitemau i'w prynu, gyfle i atgoffa ein hunain o'n dyletswydd Cristnogol i frwydro dros systemau economaidd teg a chyfiawn ledled ein byd. Bu cyfle yn ystod y bore i gyfrannu nwyddau i **Fanc Bwyd Caerdydd - 27 kg** heddiw!.

Gair Pos Mis Ebrill oedd: **Atgyfodiad.**

Munud i Feddwl – 5 Mai 2011

Geiriau'r Arlywydd Abraham Lincoln sy'n codi cwestiynau am ein hymateb yng ngwledydd y Gorllewin i ladd Osama bin Laden. Does neb yn amau mai drwgweithredwr ydoedd ond a ydy'r hyn sydd wedi digwydd yn mynd i leihau'r posibilrwydd o frawychiaeth fyd-eang? Estyn y Gweinidog gymorth i ni wynebu'r sefyllfa yn ei **Funud i Feddwl**.

Cyfundeb Dwyrain Morgannwg – 4 Mai 2011

"Rho imi nerth i wneud fy rhan, i gario baich fy mrawd,
i weini'n dirion ar y gwan a chynorthwyo'r tlawd."
(E.A. Dingley 1860-1948, *cyf.* Nantlais 1874-1959; *C.Ff.* 805)

Daeth cynrychiolwyr Eglwysi Annibynnol Cyfundeb Dwyrain Morgannwg ynghyd heno i Gwrdd Chwarter yng Nghapel Minny Street. Gydag **Wythnos Cymorth Cristnogol** yn agosáu 'roedd yn briodol mai'r Parchedig Jeff Williams, Ysgrifennydd Cenedlaethol Cymorth Cristnogol yng Nghymru oedd yn annerch.

Diddorol oedd clywed ychydig o hanes sefydlu Cymorth Cristnogol ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Gwyddom eisoes am Gymorth Cristnogol fel mudiad sy'n gweithio gydag eglwysi, cymunedau, ysgolion, mudiadau ieuenctid ac unigolion er mwyn brwydro yn erbyn anghyfartaledd byd-eang a dileu tlodi mewn 50 o wledydd ar draws y byd (llun: Tref Cytiau ar gyrion Nairobi, Kenya). Heno, cawsom gyfle i glywed am rai enghreifftiau penodol o'r hyn a wna'r asiantaeth. Aethpwyd â ni i **Dde Affrica**, lle clywsom er bod '*apartheid*' bellach yn hanes mae '*apartheid economaidd*' yn fyw ac yn iach; i **Kenya**, lle clywsom hanes y ffermwr Yona a orfodwyd i adael ei fferm a'i gnydau coffi a mynd i fyw yn un o'r trefi cytiau wrth i brisiau coffi ar y farchnad ryngwladol syrthio; i **Uganda**, a chlywed sut y bu i ddileu dyled gyllidol y wlad honno yn sgil ymgyrch fawr Jiwbilî 2000 sicrhau addysg i 80,000 o blant; ac i **Sierra Leone**, lle mae system trethi'r wlad yn golygu mai dim ond rhyw 3% o'r Cynnyrch Gwladol Crynswth sy'n cael ei fuddsoddi yn y wlad. Go brin i gydwybod gymdeithasol yr un ohonom oedd yn bresennol beidio cael ei ddwysbigo gyda geiriau Waldo *"Elw yn wallgof a'n tynnodd tua'r dibyn. Tynnodd y maes oddi tanom."* (Waldo Williams 1904-1971; *Elw ac Awen* o *Dail Pren* 1956 Gwasg Gomer).

Yn ail ran y cyflwyniad cawsom glywed am waith cyfredol Cymorth Cristnogol. Gweithredir o dan dri phennawd: **Bywoliaeth Cynaliadwy** - clywyd am raglen waith newydd i hybu busnesau bychain yn y gwledydd llai datblygedig a sut y bu i Cymorth Cristnogol hybu economi Haiti yn dilyn y ddaeargryn trwy gefnogi busnesau teuluol, a oedd yn aml ond stondinau ffordd (llun: Gwerthu ar y stryd yn Port au Prince, Haiti). **Cyfiawnder Economaidd** - clywsom am ymgyrch ddiweddaraf Cymorth Cristnogol - ***Ar Drywydd y Dreth***. Ar draws ein byd mae cannoedd o filiynau o ddinasyddion yn brwydro byw: 2.6 biliwn heb unrhyw systemau carthffosiaeth; 1.1 biliwn heb ddwr ffres ac iach i'w yfed; 270 miliwn o blant heb wasanaeth meddygol digonol a 72 miliwn o blant oed cynradd heb addysg. Tra bo hyn yn digwydd mae nifer o'r cwmnïau mawr rhyngwladol yn osgoi talu'r trethi priodol trwy ddegau o ffyrdd sydd, ar yr wyneb, yn ymddangos yn gwbl gyfreithlon. Pe byddai gwledydd llai datblygedig y byd yn derbyn yr arian sy'n foesol ddyledus iddynt byddent yn medru sicrhau gwell gwasanaethau iechyd, carthffosiaeth ac addysg i'w trigolion. **Llywodraethu Uniawn** - rhaid sicrhau difodiant llygredd ymysg strwythurau gwleidyddol a llywodraethol y byd. Fe'n hatgoffwyd gan Jeff Williams o briodoldeb geiriau Llythyr Iago a ddarllenwyd yn y Defosiwn ar ddechrau'r cyfarfod gan ein Gweinidog - ***Rhybudd i'r Cyfoethog*** (Iago 5: 1- 6).

I ddiweddu'r cyfarfod cawsom weld **ffilm** sydd newydd ei rhyddhau gan Cymorth Cristnogol i ddiolch i'r Annibynwyr Cymraeg am godi £206,000 i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol yn Ne Affrica. Dyma oedd **Elusen Eglwys Minny Street** yn 2008-2009 a bu nifer o aelodau'r eglwys yn gweithio'n galed i rannu gwybodaeth, trefnu gweithgarwch a chasglu nawdd. Cynnig y ffilm gyfle i gyfarfod rhai o'r teuluoedd y bu i aelodau Eglwysi Annibynnol, a phobl, Cymru, trwy eu cefnogaeth, wneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Bydd Eglwysi'r Cyfundeb yn cyfarfod nesaf yn ein Gwyl Flynyddol - **Sul y Cyfundeb** - ar **17 Gorffennaf 2011**.

Munud i Feddwl – 4 Mai 2011

Na, nid ein gorchymyn i bleidleisio dros berson, plaid neu ffordd arbennig o ddewis cynrychiolwyr a wna'r Gweinidog yn ei **Funud i Feddwl** yr wythnos hon. Mae, er hynny, yn ein hannog, wrth roi pensil ar bapur i lunio'r groes, i feddwl o ddifrif am beth sy'n bwysig. Fe'n hatgoffa o eiriau Crist wrth i'n Harglwydd gael ei demtio yn yr anialwch.

Mae'r hyn a ddigwyddodd ym Mhacistan ddechrau'r wythnos, gydag Osama bin Laden yn cael ei ladd, yn codi nifer o gwestiynau. Bydd y Gweinidog yn trafod y digwyddiad mewn Munud i Feddwl ychwanegol Fore Gwener.

Oedfaon Pasg Bach yn Minny Street – 1 Mai 2011

Wrth i ni ymgynnull yn Eglwys Minny Street i'n hoedfaon heddiw 'roedd ein meddyliau a'n gweddïau gydag anffodusion Alabama a thaleithiau deheuol Unol Daleithiau'r America wrth iddynt wynebu canlyniadau'r stormydd a'r corwyntoedd gwaethaf i chwythu dros y wlad ers 1925. Eisoes collodd dros 340 o drigolion y wlad eu bywydau. Fe'n harweiniwyd gan ein Gweinidog ar ddechrau'r ddwy oedfa i oedi a thawel gofio trigolion Alabama. Mewn cyfnod o weddi cawsom gyfle i'w cyflwyno, ynghyd â'r holl gymunedau eraill sydd wedi dioddefodd o dan lach y stormydd, i ofal Duw, gan ddymuno iddynt yr hedd na all y '*stormydd garwaf ei flino byth*' (Elfed 1860-1953; *C.Ff.* 787) - hedd presenoldeb Duw, a chefnogaeth, cynhaliaeth a chymorth ei bobl.



Rhannu oedd thema **Sgwrs y Plant** yn Oedfa'r Bore. 'Roedd y Gweinidog yn amlwg yn teimlo'n fwy hael nag arfer heddiw ac aeth ati i rannu ei arian mân a phecyn o losin â'r plant! Nododd, er hynny, ei fod bellach ar ei golled! Wrth rannu, 'roedd yr hyn a oedd ganddo yn ei boced a'i ddwylo wedi lleihau yn enbyd! Aeth ati wedyn i ystyried cariad, ac yn benodol rhannu cariad. Gan gychwyn â cherdyn cariad ac iddi ond pedair ongl, aeth y Gweinidog ati i dorri darnau o gariad a'u rhannu ymysg ei gynulleidfa. Cynyddodd nifer yr onglau. A ninnau wedi bod yn canolbwyntio ar Gariad Aberthol Crist yn ystod yr wythnosau diwethaf, addas iawn oedd atgoffa ein hunain fore heddiw mai cynyddu a wna grym cariad wrth ei rannu.

Neges ein **Hoedfa Fore** oedd bod i'r sawl sy'n ymroi i wasanaeth dros ei Arglwydd gyfle arbennig i weld Iesu. Ceir y neges hon yn eglur ym mhenodau cyntaf Efengyl Ioan, yn hanes troi'r dwr yn win yng Nghana (Ioan 2: 1-12; llun: Y Wledd Briodas. Yn Eglwys y Gwaredwr Sanctaidd yn Chora, Istanbul, Twrci). Aeth rhai o'r gwesteion, tebyg iawn, adref heb weld dim; ond 'roedd "*y gwasanaethyddion a fu'n tynnu'r dwr yn gwybod*" (Ioan 2:9). Mae gwyrth Cana yn digwydd o hyd; bob tro y bydd i ni ddal ar ystyr

gwaith a gwasanaeth Cristnogol ‘rydym yn derbyn golwg a gwerthfawrogiad newydd o Iesu. Fe’n hatgoffwyd fore heddiw mai cenadwri fawr Ioan yw bod y datguddiad sydd mewn gwaith a gwasanaeth yn gwbl gyfartal i’r datguddiad a geir trwy gariad a ffyddlondeb. Ym mhennod olaf Efengyl Ioan darllenwn i Iesu ofyn i Simon deirgwaith: *“Simon, mab Ioan, a wyt ti yn fy ngharu i?”* (Ioan 21: 15-17; llun: Simon Pedr yn penlinio o flaen y Crist Atgyfodedig. Cerflun ar lan Môr Galilea.). Fel hyn adferwyd Pedr yn gyhoeddus i ymddiriedaeth a gwasanaeth ei Arglwydd. Chwerw o brofiad bu gwadu ei Arglwydd deirgwaith; teirgwaith bu rhaid i Pedr arddel Iesu. Wrth gydio dechrau a diwedd ei Efengyl llwydda Ioan i gefnogi a chalonogi’r gweithwyr yn yr eglwys. Tro’r dwr yn win; tro Pedr yn graig! Soniodd y Gweinidog sut y cywesgir holl ddyletswyddau’r Cristion mewn dau air - **caru a gwasanaeth**. Cymer Ioan drafferth i’n hysbysu o’r gwasanaeth cariadus hwn sy’n orfod arnom ei ddilyn. ***“Portha fy wyn”*** (Ioan 21:15) - ein dyletswydd gyntaf yw ymboeni am y to sy’n codi. Mesur maint ein gofal am y to sy’n codi maint ein cariad at Grist. ***“Bugeilia fy nefaid”*** (Ioan 21:16). Nod disgybl yr Arglwydd yw dwyn cyfrifoldeb am bobl. Maint ein cariad at Grist ydyw maint ein gwasanaeth yn ei Deyrnas.

Yn Llyfr Exodus y canolbwyntiwyd ein sylw yn **Oedfa’r Hwyr**. Buom yn ystyried arwyddocâd manna - yn Hebraeg *man hu* sef ‘*beth yw hwn?*’; yn ôl awdur Llyfr Exodus adnodd sydd fel had coriander, a’i flas yn felys fel mêl gwyllt (Exodus 16:31). Yn ei lyfr *The Miracles of Exodus* (Continuum 2003) awgryma Colin J Humphreys (tud. 288-292) mai cynnyrch y grugwydd yw manna; wrth i drychfilyn bychan fwydo ar y goeden cynhyrchir hylif melys, gludiog sy’n caledu ac yn syrthio i’r llawr. Dyma’r manna! Nid hoff gan bawb y fath esboniad naturiol, cyffredin a gwyddonol o darddiad a natur manna. Teimlant fod esboniad o’r fath yn tanseilio gwyrth y manna, ac o ganlyniad yn bychanu Duw. A oes rhaid felly i fanna ymddangos o ’nunlle i fod yn wyrthiol? Neu, ai’r wyrth yw bod Duw wedi clywed ei bobl yn cwyno, wedi synhwyro eu hangen, wedi eu harwain i weld maeth o’u cwmpas ym mhob man? Beth sy’n gwneud rhywbeth yn fanna o’r nef? Ai’r peth ei hun, neu'r hwn a’i anfonodd? **Yn ôl ein Gweinidog, dywed ein hateb cyfrolau amdanom, ac am y ffordd y deallwn bresenoldeb a gweithgarwch Duw yn ein bywyd.** Onid y wyrth fawr yw bod Duw bob amser yn danfon rhywbeth i’n cynnal a’n cadw? Daw Duw yn amlwg inni yn y pethau cyffredin sydd yn cynnal bywyd: ac wrth ymgasglu o amgylch Bwrdd y Cymun heno fe'n hatgoffwyd o hyn - ***ychydig o fara, diferyn o win, môr o gariad!***

Sôn am ddau frenin ac un afonig a wnaeth y Gweinidog wrth dywys ein myfyrdodau at Swper yr Arglwydd heno. Y Brenin Dafydd, Iesu ein Harglwydd a Nant Cidron! Ar ddydd o ddigwyddiadau tywyll ac o ragolygon brawychus yr aeth Dafydd ac Iesu dros Nant Cidron, ond mewn dwy ffordd hollol wahanol. ***“A’r brenin a aeth dros Nant Cidron, tua ffordd yr anialwch”*** (2 Samuel 15: 23). Ffoi a wnaeth Dafydd dros Nant Cidron (llun); yn dianc am ei fywyd o flaen llid ei fab gwrthryfelgar Absalom. Mewn dryswch meddwl ac ysbryd croesodd Dafydd Nant Cidron, a ffoi i’r anialwch i geisio rhywle i guddio. “... ***aeth Iesu allan gyda’i ddisgyblion a chroesi Nant Cidron. Yr oedd gardd yno*** ...” (Ioan

18: 1). Mewn ffydd dangnefeddus yr aeth Iesu dros y Cidron, fel mab yn ffoi at ei dad. Gwyddai mai croes oedd yn ei aros yn Jerwsalem, ac aeth i fagl ei elynion yn gwbl ymwybodol o'u cynllwynion. Ni cheisiodd ddianc rhagddynt, ond aeth yn ddi-ofn i'w cyfarfod. Aeth Iesu dros Nant Cidron i ardd Gethsemane, i yfed y cwpan chwerw i'r gwaelod. Aeth Iesu dros Nant Cidron i Ardd Gethsemane (llun), a'r salmau ar ei wefusau, yn gadarn ei gam, yn Geidwad Cryf. Sicr oedd o'i Dduw. Anialwch wedi ei ennill yw gardd. Anialwch wedi ei ddofi yw gardd. Trodd Iesu'r anialwch ein pechod yn ardd o ffydd, gobaith a chariad

Yn ôl ein harfer yn ystod Mis Mai byddwn yn cofio am ein brodyr a'n chwiorydd ledled y byd sydd heb fod yn mwynhau'r breintiau a'r cyfleoedd a ddaw'n feunyddiol i ni. Canolbwyntir ein gweithgarwch yn ystod **Wythnos Cymorth Cristnogol - 15 - 21 Mai 2011**, ond bydd nifer o ddigwyddiadau eraill yn digwydd cyn hynny:

4 Mai 2011 am 1900. ***Cyfundeb Dwyrain Morgannwg*** yn cyfarfod ***yng Nghapel Minny Street***. Y Parchedig Jeff Williams, Cyfarwyddwr Cymru o Gymorth Cristnogol fydd yn annerch ar waith Cymorth Cristnogol
12 Mai 2011 am 1930. ***Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd*** yn cynnal Oedfa, eto ***yng Nghapel Minny Street***, gydag Aled Pickard yn cyflwyno hanes ei daith i Dde Affrica lle bu'n ymweld â'r asiantaethau oedd yn gysylltiedig ag **Apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 2007-2008**.
14 Mai 2011 am 1000. ***Bore Coffi Blynyddol Cymorth Cristnogol Eglwysi Cymraeg Caerdydd*** yn Festri'r Tabernacl.
15 Mai 2011 am 1030. ***Oedfa Cymorth Cristnogol Eglwys Annibynol Minny Street*** o dan ofal ein Gweinidog. Casgliadau rhydd oedfaon y dydd i Gymorth Cristnogol.
16 Mai 2011 am 1900. ***PIMS*** yn gwahodd aelodau Eglwys Minny Street i ddigwyddiad yn dathlu gwaith Cymorth Cristnogol.
20 Mai 2011 am 1500. ***Te Prynhawn*** ar aelwyd Margaret Davies. Er budd Cymorth Cristnogol.

Bu Branwen Niclas, sy'n gweithio o dan nawdd **Cymorth Cristnogol**, mewn cysylltiad â'r **Cylch Dinasyddiaeth** gan sôn am ei thaith ddiweddar i Ogledd Kenya. Dyma ardal sych iawn (llun: llyn wedi sychu yn Kenya), ar drothwy newyn. Daeth Branwen ar draws teuluoedd yn gorfod ymdopi ar 20 litr o ddwr yn unig yr wythnos; ambell bentref ond wedi cael 1 diwrnod o law ers Ionawr 2010. Mae hyd yn oed y camelod yn marw! Yn ystod y cyfnod 2 - 6 Mai 2011 bwriada Branwen fyw ar £1 y dydd (bwyd a diod) er mwyn codi ymwybyddiaeth am y 1.4 biliwn o bobl dros y byd sydd yn gorfod byw fel hyn yn ddyddiol. Cydnabu Bronwen y bydd ceisio byw o dan y fath gyfyngiadau ariannol yn her, ond sylweddola y bydd hefyd yn addysg, ac yn gipolwg ar y penderfyniadau anodd sy'n wynebu pobl mewn amgylchiadau o'r fath. **Mae cyfle i noddi Branwen a bydd Cymorth Cristnogol yn gwerthfawrogi unrhyw a phob cyfraniad.**



Canolbwyntia **Myfyrdod y Mis** ar Gymorth Cristnogol a'r modd y medrwn sicrhau bod Crist yn ein defnyddio at Ei waith. Darlun Rubens, *Le Coup de Lance*, sy'n ennyn ein sylw yn **... ac Ati**.